Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

**Cylch Meithrin Llanengan**
**Y Ganolfan**
**Llanengan**
**Gwynedd**
**LL53 7LL**

**Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2015**

**gan**

**Mr Eifion R Morgan**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**© Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 12/02/2015**

## Cyd-destun

Lleoliad cyfrwng Cymraeg yw`r Cylch Meithrin yn neuadd gymunedol pentref bychan Llanengan ger Abersoch, Gwynedd.  Mae`r plant yn mynychu yn ddwy oed ac yn parhau â`u haddysg yn un o nifer o ysgolion cynradd yn y mis Medi sy`n dilyn eu penblwydd yn dair oed.

Mae`r plant sy`n mynychu yn dod o`r ardal wledig gyfagos.  Daw tua hanner o gartrefi lle mae`r Gymraeg yn cael ei siarad a`r lleill o gartrefi lle mae un rhiant yn medru`r Gymraeg.  Nid oes un plentyn wedi`i nodi ag anghenion addysgol ychwanegol ac nid oes yr un yn dod o gefndir ethnig.

Mae`r lleoliad wedi`i gofrestru i gymryd i fyny at 16 o blant mewn unrhyw un sesiwn. Ar hyn o bryd, mae 13 o blant ar y gofrestr, gyda thri yn dair oed ac yn cael eu hariannu gan yr awdurdod lleol.

Mae dau aelod o staff parhaol ac yn ystod yr arolygiad roedd myfyriwr sydd ar gwrs hyfforddi Cam wrth Gam yn bresennol.  Mae`r arweinydd wedi bod yn ei swydd ers Medi 2013 a`i chydweithwraig ers Medi 2012.

Cafodd y lleoliad ei arolygu ddiwethaf gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ym mis Tachwedd 2014 ac ym mis Ebrill 2008 gan Estyn.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

***Prif arfarniad***

Mae perfformiad cyfredol y lleoliad yn dda oherwydd:

- Mae ansawdd y berthynas rhwng yr ymarferwyr a`r plant yn dda iawn ac yn seiliedig ar hoffter a pharch.
- Mae`r holl blant yn ymddwyn yn dda iawn ac yn dangos agweddau da at ddysgu.
- Mae gan yr ymarferwyr ymwybyddiaeth drylwyr o anghenion bob plentyn
- Mae`r holl blant yn elwa o ystod eang o gyfleoedd iddynt ddatblygu annibyniaeth a chyfrifoldebau.
- Mae`r ymarferwyr yn darparu amrywiaeth o brofiadau cyfoethog sy`n apelio at blant a`u hysgogi.
- Mae`r lleoliad yn amgylchedd diogel lle mae`r plant yn derbyn gofal da.
- Mae pob plentyn yn cael anogaeth i fwyta ac yfed yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella`r lleoliad yn dda oherwydd:

- Mae`r arweinydd wedi dangos y gallu i sicrhau gwelliant
- Mae`r ymarferwyr yn gweithio`n dda iawn fel tîm gyda ffocws clir ar godi a chynnal safonau uchel
- Mae`r lleoliad wedi ymateb yn dda iawn i gyngor sydd wedi gwella`r ddarpariaeth ar gyfer y plant
- Mae`r lleoliad wedi sefydlu perthynas effeithiol iawn gyda staff cefnogi`r awdurdod lleol a Mudiad Meithrin
- Mae`r pwyllgor rheoli yn gefnogol iawn o`r lleoliad ac yn cydnabod y gwelliannau sydd wedi digwydd yn ddiweddar.

## Argymhellion

A1 Parhau i ddatblygu`r cynllunio ar gyfer profiadau dysgu`r plant sydd yn cyfateb yn dda ag oedran a gallu`r plant

A2 Sicrhau bod cynllun datblygu`r lleoliad yn blaenoriaethu targedau ar gyfer gwella sy`n canolbwyntio ar ddeilliannau`r plant.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut y bydd yn mynd i`r afael â`r argymhellion. Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd y lleoliad.

# Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | |
|---|---|

**Safonau:**

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg a lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

**Lles:**

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg a lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae`r profiadau dysgu o ansawdd da yn gyffredinol ond nid ydynt yn canolbwyntio`n ddigonol ar oedran a gallu`r plant, yn enwedig y plant hŷn a mwy galluog. Mae`r cynllunio`n fanwl ac yn cynnwys cyfleoedd gwerthfawr i`r plant wneud dewisiadau, i weithio`n annibynnol ac i gymryd cyfrifoldeb. Mae`r ymarferwyr yn cynllunio`n dda ar gyfer cydbwysedd da rhwng gweithgareddau sy`n cael eu dewis gan y plentyn a`u cyfeirio gan oedolion.

Mae`r lleoliad yn darparu cyfleoedd gwerthfawr a gwerth chweil i`r plant ddatblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a TG. Er enghraifft, mae`r holl blant yn eistedd yn astud yn ystod cyfnod cofrestru ac yn adnabod eu henwau yn ystod hunangofrestru. Mae`r holl blant yn mwynhau ymuno mewn caneuon a rhigymau gan gyfri`r plant sy`n bresennol yn y sesiwn. Mae`r plant yn defnyddio rhif yn bwrpasol yn eu gweithgareddau, fel wrth ddefnyddio tiliau arian ac mae pob un yn gyfarwydd ag offer digidol, fel ffonau symudol. Mae`r holl blant, yn eu tro, yn symud lluniau ar sgrîn cyfrifiadur.

Ar y cyfan, mae`r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau`r plant yn yr iaith Gymraeg yn dda. Mae`r holl ymarferwyr yn defnyddio`r Gymraeg yn naturiol fel cyfrwng cyfathrebu ac mae tua hanner y plant yn siaradwyr Cymraeg rhugl. Mae gan y plant eraill ddealltwriaeth eithaf da o`r iaith ond nid oes ganddynt ddigon o gyfleoedd i ddefnyddio`r iaith ar lefel sy`n cyfateb â`u gallu.

Mae gan y plant gyfleoedd addas i ddysgu am ddiwylliant a thraddodiadau Cymru drwy ddathlu Dydd Gŵyl Dewi a thrwy ymweld â`r ardal leol, gan gynnwys yr eglwys leol. Mae ymweliadau fel hyn yn cael eu cynllunio`n dda er mwyn cyfoethogi dysgu`r plant.

**Addysgu: Da**

Mae ansawdd y berthynas rhwng yr holl ymarferwyr a`r plant yn dda iawn ac yn seiliedig ar barch a hoffter. Mae`r ymarferwyr yn rheoli ymddygiad yn dda iawn ac mewn modd cyson. Mae`r holl blant yn cael eu parchu fel unigolion ac mae`r staff yn ymatebol i`w hanghenion.

Mae gan yr ymarferwyr ddisgwyliadau uchel o`r plant ac mae`r rhain yn cael eu cyflawni yn ymarferol ar y cyfan. Mae`r sesiynau dysgu yn symud ar gyflymdra da ac mae hyn yn effeithiol drwy gynnal diddordeb a chymhelliant y plant. Mae`r ardaloedd chwarae yn cael eu defnyddio`n greadigol. Mae`r plant yn cael amser priodol i weithio`n annibynnol neu mewn grwpiau bach, heb gael eu hanwybyddu, ac mae`r staff yn ymyrryd yn ôl yr angen. Mae amseroedd fel hyn yn galluogi`r plant i ddatblygu eu medrau meddwl, eu medrau gwneud penderfyniadau a`u hannibyniaeth.

Mae`r holl ymarferwyr yn fodelau rôl da o ran iaith, yn cwestiynu ac yn sgwrsio gyda`r plant yn reolaidd ac yn canmol ymddygiad da.

Mae`r lleoliad wedi datblygu proffiliau unigol deniadol i bob plentyn sy`n rhoi cofnod i`r rhieni o gyflawniadau eu plant. Mae llyfrynnau cofnod asesu ffurfiol wedi`u cyflawni`n ddiweddar sy`n nodi datblygiad medrau plant, ac mae`r rhain yn gofnod defnyddiol o gynnydd plant, eu cryfderau a meysydd i`w datblygu. Fodd bynnag, nid oes digon o ddefnydd o`r wybodaeth wrth gynllunio`r profiadau dysgu er mwyn sicrhau bod y gwaith yn cyfateb yn dda ag oedran a gallu plant unigol.

Mae`r rhieni yn cael eu hysbysu`n dda am gynnydd eu plant drwy gyfarfodydd anffurfiol a ffurfiol ac adroddiadau cyflawniad ar ddiwedd blwyddyn.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae gan y lleoliad drefniadau effeithiol ar gyfer sicrhau gofal, cymorth ac arweiniad y plant sy`n cael effaith dda ar safonau cyflawniad a lles y plant.

Mae`r lleoliad yn gymuned hapus a chartrefol sy`n darparu`r plant ag amgylchedd dysgu cynnes a chroesawgar.

Mae gweithdrefnau effeithiol ar waith i sicrhau bod y plant yn bwyta ac yfed yn iach a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd. Mae dealltwriaeth y plant o gynaliadwyedd yn datblygu ac mae`r plant yn ymwybodol bod papur a gwastraff ffrwythau o`u byrbrydau ym cael eu hail-gylchu.

Mae profiadau dysgu yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol a diwylliannol yn dda. Mae pwyslais cyson yn cael ei roi ar werthoedd fel gonestrwydd, tegwch a pharch. Mae`r plant yn gwerthfawrogi`n llwyr yr hyn sy`n cael ei ddisgwyl ganddynt yn nhermau ymddygiad gan ymateb yn briodol.

Mae medrau cymdeithasol y plant yn cael eu datblygu`n effeithiol, fel ar amser byrbryd pan mae`r plant yn cymryd cyfrifoldeb am osod matiau bwrdd a phlatiau. Maen nhw`n helpu clirio i fyny a thacluso.

Mae gan y lleoliad drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo a diogelu plant. Mae`r drysau yn cael eu cloi sy`n sicrhau nad oes neb yn medru dod i mewn neu adael yn ddi-rybudd. Mae`r staff wedi mynychu cyrsiau perthnasol ac mae`r polisïau gweithdrefnau ar gyfer sicrhau lles y plant mewn lle. Mae trefniadau`r lleoliad ar gyfer diogelwch yn cydymffurfio â gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Nid oes un o`r plant wedi eu nodi ag anghenion dysgu ychwanegol.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn gymuned ofalgar a chefnogol lle mae`r holl blant yn cael eu parchu a`u trîn yn gyfartal. Mae`r ymarferwyr yn sensitif i anghenion y plant ac yn ymateb yn gadarnhaol gan groesawu pob plentyn wrth iddynt gyrraedd. Mae arferion a thraddodiadau Cymru yn cael eu dathlu ac mae astudiaeth o ddiwylliannau eraill yn cael ei chynllunio.

Mae gan y lleoliad ddigon o staff profiadol sydd â chymwysterau addas i gyflwyno cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen yn llwyddiannus. Mae cyflenwad digonol o adnoddau sy`n cyd-fynd yn dda ag anghenion y plant. Mae`r ystafelloedd yn ddiogel ac yn cael eu cynnal yn dda. Mae arddangosfeydd o waith y plant yn cyfoethogi`r amgylchedd dysgu.

Nid oes ardal chwarae addas tu allan ond mae defnydd addas yn cael ei wneud o`r gymuned ar gyfer ymweliadau.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw’r arweinyddiaeth a’r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae`r arweinydd yn darparu arweinyddiaeth effeithiol ar gyfer y lleoliad. Ers ei hapwyntiad, mae hi wedi llwyddo i wella ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer y plant a chreu amgylchedd dysgu sy`n darparu`n dda iawn ar gyfer datblygiad addysgol a phersonol y plant. Mae`r arweinydd wedi elwa`n sylweddol o gyngor a chefnogaeth yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin. Mae ei gweledigaeth ar gyfer y lleoliad yn cael ei rhannu gyda`i chydweithiwr, a gyda`i gilydd maen nhw`n ymroddedig i ddarparu`r profiadau gorau posibl ar gyfer y plant. Maen nhw`n cydweithio`n dda fel tîm gyda synnwyr clir o ddiben.

Mae`r rheolaeth ddyddiol yn dda ac yn sicrhau bod y plant yn cadw`n awyddus ac yn ymroddedig i`w tasgau. Mae`r plant yn adnabod y drefn ddyddiol yn dda. Mae`r arweinydd yn monitro`r ddarpariaeth yn dda ac mae`r ddau ymarferydd yn awyddus i gymryd mantais o gyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol.

Mae blaenoriaethau lleol a chenedlaethol yn cael eu cynnwys yn dda yn y cwricwlwm gyda phwyslais dda ar ddatblygu medrau`r plant a ffordd o fyw sy`n iach.

Mae`r pwyllgor rheoli`n hollol gefnogol o`r lleoliad ac yn gwerthfawrogi gwelliant diweddar y lleoliad.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae gan y lleoliad ddealltwriaeth dda o ansawdd ei ddarpariaeth a`r safonau mae`r plant yn eu cyflawni. Yn dilyn ei hapwyntiad diweddar, mae`r arweinydd yn gwneud defnydd da o gyngor a chymorth o`r tu allan, gan ymgymryd â rhaglen drylwyr o hunanarfarnu a gwelliant. Mae hyn wedi bod yn llwyddiannus ac mae`r ddau ymarferydd yn canolbwyntio`n gadarn ar sicrhau bod pob plentyn yn cyflawni`n dda, yn nhermau eu cyflawniadau addysgol a`u datblygiad personol.

Mae`r ymarferwyr yn cyd-weithio`n dda iawn gyda synnwyr clir o ddiben er mwyn gweithredu amcanion y lleoliad. Yn ystod yr arolygiad roedden nhw`n cael eu cefnogi`n dda gan fyfyriwr ar leoliad.

Mae`r lleoliad wedi nodi meysydd i`w datblygu ond mae`r rhain ar adeg cynnar o ddatblygiad. Nid yw`r targedau ar gyfer gwella yn cael eu blaenoriaethu ac nid ydynt yn cael eu cyfeirio`n ddigonol at wella safonau a deilliannau`r plant.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae partneriaeth y lleoliad gydag athrawes yr awdurdod lleol a staff Mudiad Meithrin yn effeithiol iawn ac wedi cyfrannu`n sylweddol at ddarpariaeth a safonau cyflawniad gan y plant sydd wedi`u gwella.

Mae`r bartneriaeth gyda`r rhieni yn werthfawr. Maen nhw`n gwerthfawrogi`r gofal gan yr ymarferwyr ac yn falch o gynnydd eu plant. Wrth sgwrsio, mae`r rhieni hefyd yn dangos eu bod yn werthfawrogol o`r gwelliannau i`r ddarpariaeth addysgol sydd wedi digwydd yn diweddar ac yn hollol gefnogol o`r lleoliad.

Mae`r plant yn ymweld â`r gymuned leol, ond mae`r pentref bach yn cynnig cyfleoedd cyfyngedig i ymestyn gwybodaeth y plant o sut mae cymuned yn gweithredu a`r bobl sy`n eu helpu.

Mae partneriaeth digonol anffurfiol gyda`r ysgolion cynradd lleol sy`n cefnogi trosglwyddiad y plant i addysg llawn amser.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan y lleoliad ddigon o staff sy`n brofiadol gyda chymwysterau addas i gefnogi dysgu`r plant a`u galluogi i wneud cynnydd tuag at ddeilliannau`r Cyfnod Sylfaen. Roedd y lleoliad wedi elwa o gefnogaeth dda gan fyfyriwr ar leoliad yn ystod yr arolygiad.

Mae staff y lleoliad yn rheoli adnoddau`n dda i gefnogi`r dysgu a`r gwelliannau diweddar. Yn gyffredinol, mae`r adnoddau`n cyfateb yn dda i gefnogi`r addysgu.

Mae`r staff yn cyd-weithio`n dda ac yn cefnogi`i gilydd yn effeithiol ac yn awyddus i wella eu harbenigedd proffesiynol.

Mae`r pwyllgor rheoli`n gefnogol iawn ac wedi llwyddo i godi arian yn ddiweddar i ychwanegu at adnoddau`r lleoliad. Mae`r pwyllgor rheoli`n sicrhau bod y gwariant yn cysylltu`n agos â`r blaenoriaethau ar gyfer gwella.

Drwyddi draw, gan ystyried y gwelliannau diweddar, ansawdd yr addysgu, y gofal a`r gefnogaeth sy`n cael eu darparu ar gyfer y plant, ystyrir bod y lleoliad yn darparu gwerth da am arian.

# Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Derbyniwyd llai na 10 ymateb.  Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

## Atodiad 2

### Yr arolygydd cofnodol

| | |
|---|---|
| Mr Eifion R Morgan | Arolygydd Cofnodol |

### Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Y Gymdeithas Gwarchod Plant Genedlaethol (NCMA)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |